# Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer

**Meithrinfa Seren Fach**

**Hen Gapel M.C.**
**Brithdir**
**Dolgellau**
**LL40 2RP**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cyhoeddi

**19 Mehefin 2018**

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2018.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau Trwydded Agored y Llywodraeth. Gallwch weld Trwydded Agored y Llywodraeth ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at:psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir, a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Mae Meithrinfa Seren Fach, o dan enw Cwmni Meithrinfa Meirion, wedi'i chofrestru i ddarparu gofal ar gyfer 34 o blant o dan 12 mlwydd oed, ac mae'n dewis gofalu am blant hyd at wyth mlwydd oed. Mae'r gwasanaeth yn darparu gofal o ddydd Llun i ddydd Gwener ac mae agor o 7.30am i 6pm. Mae'r safle wedi'i leoli mewn lleoliad gwledig ym Mrithdir, ger Dolgellau, Gwynedd. Mae'r gwasanaeth yn derbyn cyllid gan yr Awdurdod Addysg Lleol i ddarparu Hawliau'r Blynyddoedd Cynnar i blant tair blwydd oed, ac arolygwyd y gwasanaeth yn ddiweddar gan Estyn.

Yr unigolion cyfrifol sy'n cynrychioli Cwmni Meithrinfa Meirion yw Helen Evans, Eirian Thomas ac Elsie Evans, a'r person sy'n gyfrifol am reoli'r gwasanaeth o ddydd i ddydd yw Ann Eleri Jones. Ar ddiwrnod yr arolygiad y dirprwy reolwr Llinos Owen oedd yn rheoli'r gwasanaeth.

Mae'r gwasanaeth yn gweithredu'r cynnig gweithredol mewn perthynas â darpariaeth yr iaith Gymraeg. Mae pob aelod o staff yn ddwyieithog ac yn siarad Cymraeg a Saesneg.

## Crynodeb o'n canfyddiadau

### 1. Asesiad cyffredinol

Mae'r plant yn teimlo'n hapus ac yn mwynhau eu hamser yn y gwasanaeth. Maent yn hyderus, yn gyfarwydd â'r drefn ddyddiol ac wedi ffurfio perthnasau cadarnhaol â'u ffrindiau a staff. Mae gan y staff berthnasau cynnes a gofalgar â'r plant, ac maent yn darparu amrywiaeth o gyfleoedd chwarae ysgogol i hyrwyddo datblygiad cyffredinol y plant. Mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel a bod yr adnoddau'n hyrwyddo chwarae a dysgu'r plant. Mae gan yr arweinwyr bartneriaethau cadarnhaol gyda rhieni a'r gymuned ehangach.  Maent wedi creu ethos cadarnhaol ac wedi sefydlu tîm staff a chanddynt rolau a chyfrifoldebau clir. Fodd bynnag, mae angen gwneud rhai gwelliannau er mwyn i arweinwyr fodloni ein rheoliadau a'n safonau'n llawn.

### 2. Gwelliannau

Mae gwelliannau ers yr arolygiad diwethaf yn cynnwys:

- Prynu teganau ac offer yn ogystal â pharhau i gynnal a chadw'r safle
- Mae staff wedi mynychu hyfforddiant a chyrsiau sy'n berthnasol i ofal y plant

Ers yr arolygiad rydym wedi derbyn nifer o e-byst a dogfennau, gan gynnwys:

- Tystysgrifau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer dau o'r unigolion cyfrifol a'r person â gofal;
- Datganiad o ddiben y gwasanaeth – llawlyfr i rieni;

- Hysbysiad o'r newidiadau i’r oriau agor ac o fewn y tîm staff, sydd bellach yn dangos bod y gwasanaeth yn cydymffurfio â'r rheoliadau trwy ddarparu gwybodaeth i ni ynghylch newidiadau o'r fath, fel sy'n ofynnol.

**Gofynion ac argymhellion**

Canfuom nad oedd y gwasanaeth yn bodloni tri o'r gofynion cyfreithiol mewn perthynas â rhoi tystiolaeth i ni o dystysgrif y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer un o’r unigolion cyfrifol; Rhaid ein hysbysu ynghylch newidiadau a rhaid cwblhau'r holl wiriadau addasrwydd ar gyfer pob aelod o staff. Ni wnaethom ystyried bod y rhain yn effeithio ar ofal y plant, ac rydym wedi tynnu sylw'r dirprwy reolwr atynt, gan ddweud wrthi ei bod yn rhaid mynd i'r afael â nhw.

Gwnaethom hefyd rai argymhellion yn ymwneud â chofnodi anafiadau allanol yn fanwl, sicrhau bod y gwasanaeth yn dilyn canllawiau Iechyd Cyhoeddus Cymru mewn perthynas â newid cewynnau, ystyried peidio â storio bygis babanod y tu allan, a pheidio ag ystyried y dirprwy reolwr yng nghymarebau staffio'r gwasanaeth wrth ofalu am y plant pan fydd yn gyfrifol am y gwasanaeth.

# 1. Llesiant

## Crynodeb

Mae plant yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus ac maent yn mwynhau eu hamser yn y gwasanaeth. Maent yn hyderus ac yn gyfarwydd â'r drefn ddyddiol ac maent yn ffurfio perthnasau cadarnhaol â'u ffrindiau ac â staff. Mae plant yn gwneud dewisiadau ac yn datblygu eu sgiliau hunangymorth a sgiliau corfforol yn dda.

## Ein canfyddiadau

### 1.1 I ba raddau y mae gan blant lais?

Mae gan y plant lais; maent yn siarad yn hyderus a gwrandewir arnynt.

Roedd gan y plant gyfleoedd i ddewis beth yr oeddent yn dymuno ei wneud a chyda phwy yr oeddent yn dymuno chwarae. Er enghraifft, ar ôl amser cinio, roedd gan y plant cyn-ysgol lawer o adnoddau i ddewis ohonynt megis chwarae dŵr, y gornel gartref a phaentio. Roedd yr holl blant yn gwneud eu dewisiadau'n hysbys, gyda'r plant iau nad oeddent yn gallu siarad eto yn pwyntio at rywbeth a oedd o ddiddordeb iddynt neu'n mynd â llyfr o'u dewis at aelod o staff i'w ddarllen. Ymatebwyd yn gadarnhaol i bob ymdrech i gyfathrebu; er enghraifft, pan nad oedd un o'r plant iau yn gallu cyrraedd yn llwyr neu bwyntio'n uniongyrchol at yr anifeiliaid gwahanol a oedd wedi'u harddangos ar y wal. Codwyd hi gan aelod o'r staff er mwyn iddi allu dewis pa anifail yr oedd ganddi ddiddordeb ynddo, a gwenodd pan wnaeth yr aelod o'r staff sŵn yr anifail hwnnw. Roedd hyn yn enghraifft dda o'r staff yn gwrando ar syniadau'r plant, ac ymatebodd yr aelod o staff yn gadarnhaol i'w chais.

Mae plant yn mynegi eu hunain yn dda a chaiff eu dewisiadau eu parchu.

### 1.2 I ba raddau mae’r plant yn teimlo’n ddiogel ac yn hapus, a’u bod yn cael eu gwerthfawrogi?

Mae plant yn teimlo'n ddiogel a’u bod yn cael eu gwerthfawrogi, ac maent wedi ffurfio perthynas glòs â'i gilydd a staff.

Roedd y plant yn teimlo'n ddiogel ac yn ymlaciedig gan eu bod yn deall y drefn ddyddiol ac roeddent yn fodlon. Er enghraifft, roedd un plentyn yn awyddus i fopio'r dŵr a oedd wedi gollwng ar y llawr o ganlyniad i'r gweithgaredd chwarae dŵr, ac roedd eraill yn gwybod yn union beth yr oedd angen ei dacluso ac ymhle. Roedd y plant yn profi ymdeimlad o berthyn, oherwydd bod llawer o'u gwaith crefft wedi'u harddangos yn eu hystafelloedd chwarae unigol, ac roedd eu poteli dŵr wedi'u personoli gyda'u henwau a ffotograffau ohonynt. Roedd plant yn ffurfio cyfeillgarwch cadarnhaol â'i gilydd ac â'r staff. Er enghraifft, gwnaethant chwarae a chreu gemau dychmygol gyda'i gilydd, ac roedd plant a oedd yn dymuno derbyn cysur yn mynd at aelod o staff am gofleidiadau. Roedd plant yn gwerthfawrogi'r cyfle i gyflawni swyddogaeth 'helpwr heddiw' yn yr ystafell gyn-ysgol.

Mae’r plant yn teimlo'n hapus ac yn ddiogel oherwydd eu bod yn derbyn gofal gan staff sy'n meithrin hyder a hunan-barch cadarnhaol.

## 1.3 Pa mor dda mae plant yn rhyngweithio?

Mae'r plant yn rhyngweithio'n dda â’i gilydd ac â'r staff.

Roedd y plant yn rhyngweithio'n dda â’i gilydd ac yn deall y rheolau ar gyfer ymddygiad, megis rhannu eitemau chwarae a bod yn garedig wrth ei gilydd. Gwnaethant wrando ar gyfarwyddiadau yn dda, a rhoesant eu cadeiriau i'r naill ochr ar ôl cinio a helpu i dacluso'r teganau cyn mynd allan i chwarae. Rhoesant amser i'w gilydd siarad yn ystod gweithgaredd grŵp (amser cylch), a oedd yn dangos eu bod yn parchu ei gilydd. Roedd plant bach yn dwlu ar eu sticeri sêr a oedd yn cael eu dosbarthu fel gwobrau, yn ogystal â'u canmoliaeth am fod yn gymwynasgar, ac roeddent yn amlwg yn falch o'u cyflawniadau am eu bod yn wên o glust i glust wrth ddangos eu gwobrau.

Mae plant yn garedig, yn barchus ac yn dysgu sut i gydweithio'n gadarnhaol.

## 1.4 I ba raddau mae plant yn mwynhau eu chwarae a’u dysgu?

Mae’r plant yn mwynhau eu profiadau dysgu a chwarae yn fawr iawn.

Roedd y plant yn cymryd rhan mewn amrywiaeth eang o weithgareddau ac roeddent yn mwynhau chwarae ar eu pennau eu hunain, mewn grwpiau ac ochr yn ochr â staff. Roedd y plant yn cael eu hysgogi a'u cymell; gwnaethant greu storïau wrth iddynt chwarae, megis esgus bod y cerbyd pren y tu allan yn fws a oedd yn mynd â nhw i siopa. Gwnaeth plentyn arall rofio graean llechi i ferfa, gan ddefnyddio tamaid fel sment i adeiladu wal friciau. Roedd plant yn gwybod yn union yr hyn yr oeddent yn ei hoffi, ac roeddent yn canolbwyntio'n dda ar weithgareddau o ddiddordeb iddynt, fel chwarae yn y pwll peli a'u taflu, adeiladu â blociau a chyfrif i '3', sbïo trwy'r ffenestri yn y wigwam neu eistedd yn dawel i wrando ar stori. Roedd y plant wedi dathlu Dydd Gŵyl Dewi a'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd, ac wedi cyfrannu at yr arddangosfeydd lliwgar ar y wal yn eu hystafelloedd chwarae. Roedd yn hyfryd gweld collage y babanod yn unol â'r thema 'O gwmpas y byd', a oedd yn cynnwys eu henwau wrth ymyl siapiau pobl yn y 'byd' a collage lliwgar iawn yn ystafell y plant bach o dan y teitl 'lliwiau', lle roedd plant wedi paentio olion eu dwylo a siapiau yn eu tri hoff liw.

Mae plant yn ymgysylltu'n dda iawn ag amrediad eang o weithgareddau chwarae ac yn dangos diddordeb yn yr hyn a wnânt.

## 1.5 Pa mor dda mae plant yn datblygu, yn dysgu ac yn dod yn annibynnol?

Mae’r plant yn datblygu'n dda, yn dysgu ac yn dod yn annibynnol.

Roedd y plant yn gwybod ble i ddod o hyd i eitemau chwarae am fod adnoddau wedi eu gosod o fewn eu cyrraedd. Roeddent yn gofalu am eu hanghenion personol ac yn defnyddio'r toiled a'r cyfleusterau golchi dwylo ar eu pennau eu hunain, neu'n cael cymorth gan aelod o'r staff pan fo angen. Roedd bron pob plentyn cyn-ysgol yn gwisgo eu cotiau a'u hetiau amdanynt yn annibynnol cyn mynd y tu allan i chwarae, gydag un plentyn yn dyfalbarhau wrth dynnu'r sip ar ei chot. Gyda pheth anogaeth addfwyn, llwyddodd y plentyn i wneud hyn. Roedd sgiliau ieithyddol a dysgu'r plant yn gwella oherwydd fe'u clywsom yn cael llawer o sgyrsiau gyda'i gilydd, y staff a ni. Roedd y plant yn dysgu am iechyd corfforol

da trwy fwyta prydau bwyd a byrbrydau maethlon a oedd wedi'u paratoi'n ffres, chwarae yn yr awyr iach – ac roedd modd iddynt fynd at eu diodydd o ddŵr eu hunain yn ystod y dydd. Roedd gan y plant ddigonedd o gyfleoedd i ddefnyddio eu dychymyg, megis yn y gornel gartref a oedd wedi'i chyfarparu'n dda ac yn y gegin fwd y tu allan. Hyrwyddwyd eu diddordeb ym myd natur am eu bod yn rhydd i archwilio'r creaduriaid a oedd yn byw yn y gwesty trychfilod y tu allan ac i fwydo'r adar.

Mae gan blant amrediad o brofiadau sy'n hyrwyddo eu datblygiad cyffredinol.

## 2. Gofal a Datblygiad

### Crynodeb

Mae staff yn deall ac yn dilyn polisïau'r gwasanaeth o ran cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Mae ganddynt berthnasau cynnes a gofalgar â'r plant, ac maent yn darparu amrywiaeth o gyfleoedd chwarae i hyrwyddo eu datblygiad cyffredinol. Mae staff yn adnabod y plant yn dda iawn ac yn diwallu eu hanghenion unigol.

### Ein canfyddiadau

### 2.1 Pa mor dda mae ymarferwyr yn cadw plant yn ddiogel ac yn iach?

Mae'r staff yn cadw plant yn ddiogel ac yn iach.

Gwnaethom drafod y polisi diogelu ag un aelod o'r staff a oedd yn gwybod beth i'w wneud pe bai ganddo bryderon ynghylch plentyn. Dilynid gweithdrefnau diogel, ac roedd cofnodion o ddamweiniau, digwyddiadau a meddyginiaethau'n cael eu cwblhau, a'u llofnodi gan rieni. Fodd bynnag, gwnaethom drafod yr angen i rieni lofnodi cofnodion o'r anafiadau y mae eu plentyn yn eu cael pan nad yw'n bresennol yn y gwasanaeth, er mwyn dangos bod yr wybodaeth wedi cael ei rhannu. Byddai hyn yn galluogi staff i gadw cofnod clir ynghylch ble a phryd y digwyddodd yr anaf. Roedd gan y staff dystysgrifau cymorth cyntaf pediatrig cyfredol, roeddent yn gallu ymdrin â mân anafiadau ac roeddent yn gwybod beth i'w wneud pe bai angen cymryd unrhyw gamau prydlon.

Roedd staff yn hybu arferion iachus drwy ddarparu bwyd a diodydd maethlon a thrwy sicrhau bod byrddau'n cael eu glanhau cyn ac ar ôl amseroedd bwyd. Gwelsom fod amserlen wythnosol ar gyfer glanhau/dadheintio teganau wedi'i harddangos yn yr ystafell fabanod, a oedd yn cael ei llofnodi a'i dyddio i sicrhau y câi'r holl deganau eu glanhau'n drylwyr yn eu tro, ac y rhoddid sylw i reoli croes-heintio. Fodd bynnag, roedd angen i staff wneud un newid bychan yn ystod y broses newid cewynnau, sef cynnal proses lanhau ddwyffordd ar y mat newid cewynnau ar ôl newid cewyn pob plentyn. Wedyn byddai hyn yn bodloni canllawiau cyfredol Iechyd Cyhoeddus Cymru mewn perthynas â rheoli ac atal heintiau. Roedd y gwasanaeth wedi cwblhau holl gamau'r Cynllun Cyn-ysgol Iach a Chynaliadwy. Roedd hyn yn cynnwys ennyn diddordeb plant, staff a theuluoedd mewn ffordd iach ac egnïol o fyw drwy ddatblygu ethos ac amgylchedd sy'n hybu iechyd.

Ar y cyfan, mae staff yn hyrwyddo ffyrdd iach o fyw ac yn cadw'r plant yn ddiogel.

### 2.2 Pa mor dda mae'r ymarferwyr yn rheoli rhyngweithio?

Mae'r staff yn rheoli'r rhyngweithio yn dda iawn.

Roedd y staff yn dilyn polisi rheoli ymddygiad y gwasanaeth ac yn esiampl dda o ymddygiad cadarnhaol. Nid oedd dryswch yn y ffordd roedd staff yn rheoli ymddygiad oherwydd bod eu dull yn gyson. Clywsom staff yn annog y plant i rannu, ac roeddent yn sicrhau bod plant yn gwybod yn union pam yr oeddent wedi derbyn 'gwobr' neu pam yr

oedd unigolyn yn cael ei ganmol. Roeddent yn addfwyn eu hymagwedd ac yn dangos cynhesrwydd a hoffter gwirioneddol tuag at y plant, a oedd yn cael ei adlewyrchu yn y ffordd yr oedd plant yn ymddwyn tuag at ei gilydd a thuag at staff.

Mae staff yn hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol trwy fod yn esiamplau da a thrwy ddangos caredigrwydd a pharch tuag at y plant.

### 2.3 Pa mor dda mae'r ymarferwyr yn hybu chwarae, dysgu a datblygiad y plant, ac yn bodloni eu hanghenion unigol?

Mae'r staff yn cynllunio amrywiaeth o weithgareddau chwarae a dysgu ar gyfer y plant, sy'n eu galluogi i ddatblygu amrediad o sgiliau.

Yn ystod ein trafodaethau â staff, canfuom eu bod yn gyfarwydd ag anghenion a chamau datblygu'r plant yn eu gofal. Roedd hyn yn bosibl oherwydd proses ymgynefino'r gwasanaeth, lle roedd rhieni a staff yn gallu trafod anghenion a hoffterau'r plant, yn ogystal â chofnodi gwybodaeth bwysig amdanynt yn ffurfiol fel yr oedd y gwasanaeth yn gallu cyfeirio ati. Gwelsom hyn ar waith, oherwydd bod alergeddau bwyd plentyn yn cael eu rhannu â'r holl aelodau o staff a oedd yn gofalu amdano, a oedd yn golygu bod anghenion y plentyn hwnnw'n cael eu diwallu. Roedd staff yn cofnodi datblygiad y plant ac yn cynllunio gweithgareddau priodol ac amrywiol bob dydd a oedd yn gweddu i'r plant a'u hoedrannau. Gwnaethom edrych ar rai enghreifftiau o lyfrau datblygu lliwgar y plant, a oedd yn cynnwys cyfeiriadau cadarnhaol a charedig at y ffordd yr oedd pob plentyn yn datblygu, gan adlewyrchu oedran y plentyn a'i gam datblygu.
Roedd staff yn ymgysylltu'n dda â phlant, trwy eistedd ar yr un lefel â nhw i siarad am yr hyn yr oeddent yn ei wneud ac estyn sgiliau ieithyddol y plant. Roedd yn dda gweld bod staff yn gwneud dysgu'n broses hwyliog trwy ymuno â gemau'r plant ac yn eu mwynhau cymaint â'r plant eu hunain. Dywedodd staff wrthym fod gweithgareddau thematig y gwasanaeth yn gweithio'n dda ac yn eu galluogi i rannu adnoddau a syniadau, a oedd yn helpu i hyrwyddo dealltwriaeth y plant o'r pwnc. Roedd staff yn adnabod y plant yn dda ac yn dilyn trefn ddyddiol pob plentyn, fel amserau cysgu a ble roedd y plentyn fel arfer yn cysgu. Roedd staff yn hapus, hyderus ac wedi ymlacio; roeddent yn gweithio fel tîm ac roedd ganddynt brofiad a gwybodaeth gadarn am ddatblygiad plant.

Mae staff yn hyrwyddo datblygiad cyffredinol pob plentyn ac yn sicrhau eu bod yn diwallu anghenion unigol y plant.

## 3. Yr Amgylchedd

### Crynodeb

Mae'r plant yn derbyn gofal mewn amgylchedd ysgogol a diogel sy'n canolbwyntio ar y plentyn, sy'n rhoi ethos cadarnhaol iddynt ar gyfer chwarae a dysgu. Dilynir gweithdrefnau effeithiol i sicrhau bod y plant yn cael eu cadw'n ddiogel a bod adnoddau'n lân ac o ansawdd da.

### Ein canfyddiadau

### 3.1 Pa mor dda mae arweinwyr yn sicrhau diogelwch yr amgylchedd?

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel.

Roedd system ddiogel i gyfyngu mynediad i'r gwasanaeth; roedd drysau dan glo a gofynnwyd i ni lofnodi'r llyfr ymwelwyr, a oedd yn golygu bod arweinwyr yn sicrhau nad oedd personau heb awdurdod yn gallu cael mynediad i'r yr adeilad. Roedd yr arweinwyr yn cynnal a chadw asesiadau risg ysgrifenedig, a oedd yn cael eu diweddaru yn ôl yr angen. Roedd ymarferion tân yn cael eu cwblhau bob tymor, ac roedd staff a phlant yn gyfarwydd â'r drefn. Roedd gweithdrefnau gweithredol ar waith ar gyfer ymweliadau i ffwrdd o'r gwasanaeth, a oedd yn dangos bod arweinwyr wedi ymrwymo i sicrhau bod y plant yn ddiogel bob amser. Roedd arweinwyr yn sicrhau bod y plant yn cael eu goruchwylio'n briodol, fel y gwelwyd yn ystod yr arolygiad, gyda chymarebau staffio digonol.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr adeilad yn lân ac maent wedi sefydlu gweithdrefnau i gadw'r plant yn ddiogel yn y gwasanaeth a'r gymuned.

### 3.2 Pa mor dda mae'r arweinwyr yn sicrhau addasrwydd yr amgylchedd?

Mae'r arweinwyr yn darparu amgylchedd cyfforddus ac ysgogol lle mae'r plant yn datblygu ac yn tyfu.

Roedd yr arweinwyr yn sicrhau bod gan y plant ddigon o le y tu mewn i symud o gwmpas y lle a bod yn egnïol. Roedd y rhan fwyaf o'r bocsys storio wedi cael eu labeli, ac roedd adnoddau wedi'u gosod i hybu annibyniaeth y plant. Roedd ardaloedd yn yr ystafell gyn-ysgol a oedd wedi'u cyfarparu a'u diffinio'n dda, ac roedd y ddwy ystafell ar gyfer y plant bach a'r babanod wedi'u cyfarparu â'r hyn a oedd yn addas ar gyfer eu hoedran. Roedd yr arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn groesawgar, gyda gwaith crefft y plant yn cael ei arddangos, a chyfleusterau fel sinciau a thoiledau lefel isel yn hyrwyddo annibyniaeth y plant. Roedd yr ardal awyr agored fawr, a oedd yn cael ei defnyddio yn bennaf gan y plant bach a'r plant cyn-ysgol, yn rhoi amrediad eang o gyfleoedd chwarae a dysgu iddynt. Roedd wedi'i chynllunio'n dda ac yn hyrwyddo chwilfrydedd naturiol y plant i ddysgu; er enghraifft, roedd yn eu galluogi i gymryd risgiau y gellir eu rheoli ac yn hyrwyddo chwarae corfforol a dychmygol.

Roedd gan yr ystafell gyn-ysgol lawer o adnoddau ac roedd wedi'i chynllunio yn unol ag ethos y cyfnod sylfaen. Fodd bynnag, roedd yr ystafell hon yn gallu bod yn brysur ar adegau, am fod aelodau o staff yn defnyddio'r ystafell i gyrraedd yr ystafell staff, a bod ymwelwyr yn ei defnyddio i gael mynediad at y gwasanaeth. Roedd pwyslais ar ddarpariaeth y Cyfnod Sylfaen y tu mewn a'r tu allan. Fodd bynnag, nid oedd yr ystafell plant bach (Twt Lol) na'r ystafell fabanod (Pitian Patian) wedi'u cynllunio na'u cyfarparu

cystal, ond roeddent yn darparu digon o le a chyfleusterau i'r plant. Gallai'r arweinwyr ystyried sut y gallent reoli llif y staff a'r ymwelwyr yn yr ystafell gyn-ysgol (Dwylo Prysur), a allai arwain at lai o bethau i dynnu sylw'r plant, yn ogystal â gwella'r cynllun a'r adnoddau yn yr ystafell plant bach a'r ystafell fabanod trwy gymhwyso rhai o egwyddorion y Cyfnod Sylfaen. Dywedodd staff wrthym fod ardal chwarae'r babanod y tu allan i fod i gael ei hadnewyddu, ac er eu bod yn gallu defnyddio'r ardal chwarae fawr yn yr awyr agored ar adegau, nid oedd eu hardal chwarae benodedig yn estyn eu profiadau chwarae a dysgu cymaint â'r ardal ar gyfer y plant hŷn. Gallai'r arweinwyr ddefnyddio rhai o'r syniadau cadarnhaol sydd ar waith yn ardal chwarae'r plant hŷn i sicrhau eu bod hefyd yn darparu gweithgareddau chwarae a dysgu tebyg yn yr awyr agored i'r plant iau, sydd wedi'u haddasu i gyd-fynd â'u hoedrannau nhw.

Ar y cyfan, mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn darparu cyfleoedd chwarae addas ar gyfer oedrannau'r plant sy'n mynychu'r gwasanaeth.

### 3.3 Pa mor dda mae arweinwyr yn sicrhau ansawdd yr adnoddau a'r offer?

Mae arweinwyr yn darparu adnoddau sy'n addas ar gyfer oedrannau a chamau datblygu'r plant.

Roedd gan yr arweinwyr weithdrefnau addas ar waith i sicrhau bod adnoddau ac offer yn lân ac mewn cyflwr da. Roedd niferoedd digonol o offer addas ar gael, fel matresi i gysgu arnynt a detholiad o gotiau a bygis i'r plant iau gysgu ynddynt. Roedd y detholiad o adnoddau yn annog y plant i ddilyn eu diddordebau ac i ddatblygu sgiliau gwahanol. Er enghraifft, roedd y teganau i'w gyrru a'r cyfarpar a oedd wedi'u gosod yn sownd y tu allan yn hyrwyddo sgiliau balans a chorfforol y plant. Roedd y dodrefn o faint priodol, a oedd yn galluogi'r plant i eistedd yn gyfforddus i fwyta ac i wneud gweithgareddau pen bwrdd. Roedd adnoddau'n amrywiol ac roedd plant yn cael eu cefnogi i ddeall elfennau o wahanol ddiwylliannau a gwyliau. Roedd yr arweinwyr yn darparu amrywiaeth eang o eitemau naturiol, eitemau a ailgylchwyd ac eitemau cartref i'r plant ar gyfer gwaith crefft a gwneud modelau – a oedd yn hyrwyddo ethos o gynaliadwyedd yn y gwasanaeth. Pan wnaethom gyrraedd y gwasanaeth, gwelsom fod bygis wedi cael eu gadael yn yr ardd flaen gaeedig, a dywedwyd wrthym fod y bygis hyn yn cael eu cadw mewn uned storio ddiogel y tu allan pan nad oeddent yn cael eu defnyddio. Fodd bynnag, dylai arweinwyr ystyried eu storio y tu mewn oherwydd gallai'r bygis fod yn oer, ac yn llaith o bosibl, ar hyn o bryd pe bai'r plant iau yn eistedd ynddynt.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod adnoddau ac offer yn cefnogi datblygiad sgiliau a gwybodaeth y plant.

# 4. Arweinyddiaeth a Rheolaeth

## Crynodeb

Mae’r arweinwyr wedi creu ethos cadarnhaol yn y gwasanaeth, ac maent wedi sefydlu tîm staff a chanddynt rolau a chyfrifoldebau clir ac sy'n darparu gofal o ansawdd uchel i'r plant. Mae partneriaethau effeithiol ar waith gyda rhieni a'r gymuned leol, ac mae’r arweinwyr yn monitro perfformiad cyffredinol y gwasanaeth ac yn gwneud gwelliannau yn ôl yr angen. Fodd bynnag, mae angen i arweinwyr fynd i'r afael â rhai agweddau ar y gwasanaeth er mwyn bodloni ein safonau a'n rheoliadau'n llwyr.

## Ein canfyddiadau

### 4.1 Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth?

Ar y cyfan, mae’r arweinwyr yn deall yr hyn sydd angen ei roi ar waith i reoli'r gwasanaeth, ond mae angen gwneud gwelliannau i rai agweddau er mwyn bodloni’r rheoliadau.

Roedd arweinwyr yn gosod amcanion clir er mwyn hyrwyddo a chynnal gwelliannau. Er enghraifft, roeddent wedi cwblhau'r Cynllun Cyn-ysgol Iach a Chynaliadwy yn llwyddiannus. Dyma fenter Cynllun Ysgolion Iach Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau gofal plant cyn-ysgol, sydd â'r nod o 'hyrwyddo ac amddiffyn pob agwedd ar iechyd mewn modd gweithredol - gan gynnwys yr agweddau corfforol, emosiynol, meddyliol, cymdeithasol a llesiant cymuned y gwasanaeth cyfan.' Roedd ethos y cynllun yn cael ei adlewyrchu drwyddi draw yn y gwasanaeth ac fe'i gwelwyd yn ystod ein hymweliad, megis hyrwyddo ffyrdd iach o fyw a'r gweithgareddau a gynlluniwyd. Roedd yr arweinwyr yn cyfleu eu gweledigaeth ar gyfer y gwasanaeth trwy edrych ar weithdrefnau a'u cymhwyso er mwyn codi safonau, ac er mwyn hyrwyddo arferion diogel fel adolygu a diweddaru polisïau i adlewyrchu newidiadau cyfredol a chanllawiau sy'n berthnasol i ofal plant. Roedd yr arweinwyr wedi cwblhau eu Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth (SASS) a'r wybodaeth ategol sy'n ofynnol gennym, a oedd yn dangos eu bod yn cydymffurfio â'r hyn a oedd yn ddisgwyliedig ganddynt. Roedd yr arweinwyr wedi cyflogi staff a oedd yn siarad Cymraeg, ac roedd gwybodaeth yn ddwyieithog (Cymraeg a Saesneg), a oedd yn dangos eu bod yn darparu cynnig gweithredol Llywodraeth Cymru.

Mae datganiad o ddiben/llawlyfr i rieni y gwasanaeth yn darparu'r wybodaeth angenrheidiol er mwyn i rieni benderfynu a yw'r gwasanaeth yn diwallu eu hanghenion nhw ac anghenion eu plentyn. Fodd bynnag, gofynnwyd i’r arweinwyr sicrhau bod ffeiliau personol y plant yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol, oherwydd gwelsom nad oedd un ohonynt yn cynnwys contract rhwng y gwasanaeth a rhieni'r plentyn. Ni wnaethom dderbyn unrhyw hysbysiad ynghylch y newidiadau i ddau aelod o staff nac ynghylch y newid i oriau agor y gwasanaeth. Rhaid i'r arweinwyr ein hysbysu'n ffurfiol ynghylch newidiadau o'r fath, yn ôl yr angen.

Mae’r elfennau cyffredinol o  arweinyddiaeth a rheolaeth yn effeithiol, ond mae angen gwneud rhai gwelliannau.

### 4.2 Pa mor effeithiol yw'r gwaith o hunan-arfarnu a chynllunio ar gyfer gwella?

Mae arweinwyr yn gwneud newidiadau cadarnhaol er mwyn symud y gwasanaeth yn ei flaen.

Gwelsom fod yr arweinwyr wedi cwblhau adolygiad ansawdd gofal blynyddol yn manylu ar yr adborth gan rieni, plant a staff a'r gwelliannau a wnaed hyd yn hyn a'r rhai hynny sydd wedi eu cynllunio ar gyfer y dyfodol. Roedd y sylwadau a dderbyniwyd yn bennaf yn gadarnhaol, ac roedd arweinwyr wedi mynd i'r afael â'r materion yr oedd angen tynnu sylw atynt mewn modd cadarnhaol. Er enghraifft, pan oedd yn rhaid i staff fod yn gyfrifol am rai o'r dyletswyddau cegin a'r dyletswyddau glanhau oherwydd bod y glanhawr wedi gadael, aeth yr arweinwyr i'r afael â hyn a phenodi glanhawr newydd, a oedd yn golygu y gallai staff ganolbwyntio ar ofalu am y plant. Gwnaethom siarad â'r dirprwy reolwr ynglŷn â'r gwelliannau yr oedd y gwasanaeth wedi'u cynllunio, a oedd yn cynnwys datblygu ardal chwarae'r plant iau a darparu gwelyau planhigion uchel i'r plant er mwyn gwella eu sgiliau garddio.

Mae’r arweinwyr wedi sefydlu prosesau er mwyn monitro a gwella'r gwasanaeth.

### 4.3 Pa mor effeithiol mae ymarferwyr, staff ac adnoddau eraill yn cael eu rheoli?

Mae gan arweinwyr rai systemau ar waith i reoli staff ac adnoddau.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn cael eu cefnogi gan yr arweinwyr, a'u bod yn gwybod eu bod yn gallu mynd atynt os oedd angen arweiniad arnynt neu os oes ganddynt bryder. Canfuom fod gan yr arweinwyr broses ymsefydlu ar waith a oedd yn sefydledig, a'u bod yn sicrhau bod staff wedi darllen a deall polisïau a gweithdrefnau'r gwasanaeth pan wnaethant ddechrau yno. Fodd bynnag, canfuom nad oedd un ffeil staff yn bodloni'r rheoliadau a bod angen iddi gynnwys tystysgrif geni, un geirda a ffotograff diweddar.  Gofynnwyd i’r arweinwyr sicrhau bod ffeiliau staff yn cynnwys yr holl wiriadau addasrwydd gofynnol, a ddylai fod ar waith cyn i aelod o staff ddechrau gweithio yn y gwasanaeth.

Roedd yr arweinwyr yn cwblhau arfarniadau blynyddol, a oedd yn rhoi cyfleoedd i staff drafod arferion a nodi unrhyw anghenion hyfforddiant. Dywedodd yr arweinwyr wrthym eu bod yn cyfarfod â staff yn unigol bob tri mis, neu'n fwy rheolaidd pe bai angen. Roedd hyn yn rhoi cyfle i'r ddau barti drafod materion neu bryderon o ran arferion.

Er bod yr arweinwyr wedi rhoi ceisiadau i adnewyddu eu tystysgrifau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd inni, a bod tair tystysgrif wedi'u cyflwyno, mae'n rhaid iddynt sicrhau eu bod yn cael eu hanfon atom yn brydlon ar ôl iddynt eu derbyn, ac rydym yn eu hatgoffa bod yn rhaid i geisiadau ar gyfer gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd gael eu gwneud o fewn tair blynedd iddynt gael eu cyflwyno.

Canfuom fod yr arweinwyr yn sicrhau bod staff yn meddu ar y cymwysterau gofynnol ac yn mynychu hyfforddiant megis cymorth cyntaf pediatrig, amddiffyn plant a hylendid bwyd. Roedd yr aelodau o staff a oedd yn gyfrifol am ofalu am y plant a oedd yn derbyn Hawliau'r Blynyddoedd Cynnar wedi mynychu cyrsiau ar reoli ymddygiad ac, yn dilyn ein harolygiad, dywedodd yr arweinwyr wrthym yn ysgrifenedig mai eu bwriad yw sicrhau bod yr holl aelodau o staff yn mynychu'r hyfforddiant hwnnw. Byddai hyn yn arfer da oherwydd y byddai pob aelod o staff yn defnyddio'r un technegau ar gyfer rheoli ymddygiad.

Dywedodd y dirprwy reolwr a oedd yn rheoli'r feithrinfa wrthym ei bod yn cael ei chynnwys yn y cymarebau staff i blant, yn ogystal â bod yn gyfrifol am y feithrinfa. Mae angen i arweinwyr sicrhau bod y person sy'n rheoli'r gwasanaeth o ddydd i ddydd yn ychwanegol at y staff, fel sy'n ofynnol pan fydd gwasanaeth wedi'i gofrestru i ofalu am fwy na 19 o blant. Ar ddiwrnod ein hymweliad, roedd 30 o blant yn mynychu'r gwasanaeth, ac roedd llawer o ymyriadau yn golygu bod angen i'r dirprwy reolwr gael ei hesgusodi o'r dyletswyddau o ofalu am blant er mwyn rhedeg y gwasanaeth o ddydd i ddydd.

Mae angen i arweinwyr wneud rhai gwelliannau er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r safonau a'r rheoliadau.

### 4.4 Pa mor effeithiol yw partneriaethau?

Mae’r arweinwyr yn rheoli'r gwasanaeth yn effeithiol ac mae ganddynt bartneriaethau cadarnhaol iawn gyda rhieni a'r gymuned ehangach.

Roedd yr arweinwyr yn hysbysu rhieni am amser eu plant yn y gwasanaeth - ar lafar a thrwy gofnodion ysgrifenedig dyddiol. Roedd rhieni'n rhannu gwybodaeth ynglŷn â'u plentyn cyn i'w plentyn ddechrau, fel bod yr arweinwyr yn gallu rhannu trefn ddyddiol pob plentyn, eu hoffterau a'u hanghenion â'r tîm staff. Roedd arweinwyr yn hysbysu'r rhieni'n rheolaidd ynghylch cynnydd eu plentyn, trwy eu gwahodd i'r gwasanaeth i edrych ar eu cofnodion datblygu ac i drafod y cynnydd a wnaed hyd yn hyn. Roedd yn braf clywed bod rhieni hefyd wedi bod yn rhan o osod cegin fwd ar gyfer y plant, sy'n dangos bod meddu ar bartneriaethau cadarnhaol yn fuddiol i'r plant. Eid â’r plant am dro, i ymweld ag atyniadau lleol ac i'r llyfrgell. Roedd y plant yn elwa ar y cyfleoedd hyn, am eu bod yn dysgu rhagor am y byd o'u cwmpas ac yn gwneud iddynt deimlo eu bod yn rhan o'u cymuned.

Mae'r arweinwyr wedi meithrin partneriaethau effeithiol, sy'n hyrwyddo canlyniadau cadarnhaol i blant.

# 5. Gwelliannau y mae angen eu gwneud ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

## 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Dim

## 5.2 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd yn yr arolygiad hwn

Gwnaethom hysbysu'r dirprwy reolwr nad oedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â thri o'r rheoliadau canlynol: Ni wnaethom gyflwyno hysbysiadau o ddiffyg cydymffurfio am na welsom dystiolaeth, y tro hwn,
fod y rhain yn effeithio ar lesiant y plant. Mae'n rhaid mynd i'r afael â'r materion hyn.

**Rheoliad 6 Atodlen 1 Rhan 2 19 (a) (b)** Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010 – mae'n rhaid i'r unigolyn cyfrifol gyflwyno tystysgrif cofnod troseddol fanylach i Weinidogion Cymru.

**Rheoliad 28** Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010 – mae'n rhaid i'r unigolion cyfrifol sicrhau bod pob ffeil staff yn gyflawn.

**Rheoliad 31** Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010 – mae'n rhaid i'r unigolion cyfrifol ein hysbysu yn ysgrifenedig ynghylch unrhyw newidiadau yn y gwasanaeth, megis staff ac oriau agor y gwasanaeth.

**Argymhellion ar gyfer gwella**

- Rhaid i rieni lofnodi cofnodion a gedwir am anafiadau y mae eu plentyn yn eu cael pan nad yw'n bresennol yn y gwasanaeth;
- Rhaid dilyn canllawiau Iechyd Cyhoeddus Cymru wrth newid cewynnau;
- Dylai'r dirprwy reolwr fod yn ychwanegol at y cymarebau staffio pan fydd yn gyfrifol am reoli'r gwasanaeth o ddydd i ddydd;
- Mae'n rhaid storio'r bygis y tu mewn pan nad ydynt yn cael eu defnyddio.

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Arolygiad dirybudd llawn oedd hwn a gynhaliwyd yn rhan o'n hamserlen arferol o arolygiadau. Gwnaeth un arolygydd ymweld â'r gwasanaeth ar 14 Mawrth 2018 rhwng 11.50am a 5.30pm.

Gwnaethom y canlynol:

- Arsylwi ar ymgysylltiad y plant â gweithgareddau a'r gofal a ddarperid gan staff;
- Siarad â'r plant, y staff a'r dirprwy reolwr;
- Edrych ar amrediad eang o gofnodion, gan gynnwys y datganiad o ddiben, polisïau, gweithdrefnau, cofnodion y plant;
- Archwilio'r adeilad ac ansawdd y teganau a'r adnoddau; a
- Gyda chaniatâd ysgrifenedig gan un o'r unigolion cyfrifol rhoesom adborth i'r dirprwy reolwr ar 21 Mawrth 2018.

Ceir gwybodaeth bellach am yr hyn yr ydym yn ei wneud ar ein gwefan, www.aggcc.org.uk

## Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| **Y math o ofal a ddarperir** | **Gofal dydd plant**<br>**Gofal dydd llawn** |
| **Unigolion cyfrifol** | **Helen Evans**<br>**Eirian Thomas**<br>**Elsie Evans** |
| **Person â gofal** | **Ann Eleri Evans** |
| **Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd** | **34** |
| **Ystod oedran y plant** | **3 mis hyd at 8 mlwydd oed** |
| **Oriau agor** | **7.30am i 6pm o ddydd Llun i ddydd Gwener** |
| **Iaith weithredol y gwasanaeth** | **Cymraeg** |
| **Dyddiad arolygiad blaenorol AGGCC** | **1 Mawrth 2016** |
| **Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn** | **14 Mawrth 2018** |
| **Ydy hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg?** | **Nac ydy** |
| **Ydy'r gwasanaeth hwn yn darparu cynnig gweithredol y Gymraeg?** | **Ydy**<br>Gwybodaeth Ychwanegol: Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn bodloni anghenion y bobl sy'n defnyddio neu a allai ddefnyddio'r gwasanaeth o ran yr iaith Gymraeg a'i diwylliant. |
| **Gwybodaeth ychwanegol:**<br>Cwblhawyd arolygiad Estyn yn 2018. | |